

Make a rubbing of the Saw Wort here

Gwnewch rwbïad o ddant y pysgodyn yma

I am an uncommon plant of damp meadows. I have pretty purple flowers and serrated leaves, like the teeth of a saw. Although I look like a thistle I am quite soft and have no spines.

Planhigyn anghyffredin ydwyf o ddolau llaith. Mae gennyf flodau porffor pert a dail danheddog, fel dannedd llif. Er fy mod yn edrych fel ysgallen, rwy'n eithaf meddal heb unrhyw bigynau.

SAW WORT

DANT Y PYSGODYN




WHAT CAN I DO?

A great way to help is to create a pond in your own garden. It doesn't have to be very big, just a container with water in it will soon attract wildlife. There are lots of advice sheets on the internet on creating ponds. Just remember, only get plants from known sources to stop the spread of disease and invasive species. There is no need to introduce animals to the pond—you will be amazed how quickly they'll find it. Other garden residents will appreciate this source of clean water and you might see birds bathing in it in the day. Check out the Wildlife Trust web site for more information www.wildlifetrusts.org.

Ffordd wych i helpu yw creu pwll yn eich gardd gefn. Nid oes rhaid iddo fod yn fawr iawn, bydd cynhwysydd llawn dŵr yn denu bywyd gwylt yn fuan. Ceir llawer o daflenni gwybodaeth ar y rhyngwrwd am greu pwll. Cofiwch, prynwch blanhigion o ffynonellau da er mwyn atal afiechydon a rhywogaethau ymledol. Nid oes angen rhoi anifeiliaid yn y pwll - byddwch yn synnu mor gyflym y byddant yn dod o hyd iddo. Bydd preswylwyr eraill yr ardd yn gwerthfawrogi'r ffynhonnell hon o ddŵr glân hefyd ac efallai y byddwch yn gweld adar yn ymdrochi ynddo yn ystod y dydd. Ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt i gael mwy o wybodaeth yn www.wildlifetrusts.org.

BETH GALLAF I EI WNEUD?



Make a rubbing of the Dragonfly here

Gwnewch rwbïad o was y neidr yma

I'm an insect with 4 wings which really help me zoom around. I like to eat mosquitoes, bees, wasps and flies that I catch in the air.


Pryfyn ydw i gyda phedair adain sy'n fy helpu i wibio o le i le. Rwy'n hoffi bwyta gwybed, gwenyn, cacwn a chlêr yr wyf yn eu dal yn yr awyr.

DRAGONFLY

GWAS Y NEIDR




BANWEN PONDS TRAIL LLWYBR PYLLAU'R BANWEN



Find the right picture in the leaflet, place the blank square over the metal plaque, hold the paper firmly in place, then using a coloured pencil or crayon, rub over the top. Lift the paper off and see the picture revealed.

Chwiliwch am y llun cywir yn y daflen. Rhowch y sgwâr wag dros y plac metel, daliwch y papur yn dynn yn ei le ac yna, gan ddefnyddio pensil lliw neu greon, rhwbiwch drosto. Codwch y papur oddi arno i weld y llun oddi tano.




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



For more Wildlife Explorer Trails to follow see www.npt.gov.uk/biodiversity

A fwy o Lwybrau Archwilio Bywyd Gwylt i'w dilyn, ewch i www.npt.gov.uk/biodiversity



Make a rubbing of the frog here

Gwnewch rwbïad o froga yma

I am most active at night during the summer months. I started life as a tadpole in water but now I can breathe through my lungs and my skin so I'm at home both in and out of the water.

Rwy'n fwyaf gweithgar gyda'r nos yn ystod misoedd yr haf. Dechreuais fy mywyd ar ffurf penbwl yn y dŵr ond erbyn hyn rwy'n gallu anadlu trwy f'ysgyfaint a'm croen, felly rwy'n gyfforddus yn y dŵr ac ar y lan.



FROG

BROGA


BRAMBLE

MIAREN



You can see me throughout the year. In the summer I have lovely white flowers, in the autumn you will recognise me by my Blackberries, the rest of the year you will see my thorny shoots.

Gallwch fy ngweld trwy gydol y flwyddyn. Yn y gwanwyn mae gen i flodau gwyn hyfryd; yn yr hydref byddwch yn fy adnabod trwy fy mwyar duon. Yn ystod gweddill y flwyddyn byddwch yn gweld fy egin dreiniog.



Make a rubbing of the Bramble here

Gwnewch rwbïad o fiaren yma

WHAT'S SO SPECIAL ABOUT PONDS?

Ponds are an amazing habitat! There can be hundreds of species of plants and animals in and around a single pond. Some animals spend all their life in one pond, like sticklebacks and many minibeasts. Others, like frogs and toads, lay eggs which hatch into tadpoles, which then develop into adults and leave the pond to spend most of their life on land. Dragonflies have a very interesting life in the pond. They lay eggs in the water which hatch into larva. These can spend several years in the pond. They are vicious predators and will eat anything they find, including tadpoles and small fish. Then, one day, they climb up on to some emergent vegetation and transform into the beautiful dragonflies we see whizzing about the pond. Mammals also use ponds; shrews and voles live on the banks and bats feed above the water.

Mae pyllau'n gynefin gwych! Gall fod cannoedd o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid mewn pwll ac o'i amgylch. Mae rhai anifeiliaid yn treulio'u holl fywydau mewn un pwll, fel crethyll a llawer o fwystfilod bach. Mae eraill, fel brogaod a llyffantod, yn dodwy wyau sy'n deori'n benbyliaid, sydd yna'n datblygu'n oedolion ac yn gadael y pwll i dreulio'r rhan fwyaf o'u bywydau ar y tir. Mae gan weision y neidr fywyd diddorol iawn yn y pwll. Maent yn dodwy wyau yn y dŵr sy'n deori'n lafa. Gall y rhain dreulio sawl blwyddyn yn y pwll. Maent yn ysglyfaethwyr didrugaredd a byddant yn bwyta popeth y gallant ddod o hyd iddo, gan gynnwys penbyliaid a physgod bach. Yna, un dydd, maent yn dringo i fyny llystyfiant newydd ac yn trawsnewid yn weision y neidr hyfryd rydym yn eu gweld yn hedfan o amgylch y pwll. Mae mamaliaid hefyd yn defnyddio pyllau; mae chwistlod a llygod y dŵr yn byw ar y glannau ac mae ystlmod yn bwydo uwchben y dŵr.


BETH SYDD MOR ARBENNIG AM BYLLAU?

WHY ARE PONDS IN TROUBLE?

Some ponds naturally turn into grassland and woodland as plants die down and block up the pond. Others are filled in. But one of the biggest threats to ponds are non-native invasive species. These include many plants that grow so fast and big that they totally cover the water, not allowing any light to get to the native plants below and stopping the natural function of the pond. Others are species such as goldfish which will eat native species like frog tadpoles. The best way to protect ponds is to make sure you never move anything from one pond to another, as this can move eggs and seeds of plants and species that will damage the pond they go in to. Also never release any animals like goldfish and terrapins into ponds, they don't belong here!

Mae rhai pyllau'n troi'n laswelltir ac yn goetir naturiol wrth i blanhigion farw a blocio'r pwll. Caiff rhai eraill eu llenwi. Un o'r pethau mwyaf sy'n bygwth y pyllau yw rhywogaethau ymledol anffrodorol. Mae'r rhain yn cynnwys sawl planhigyn sy'n tyfu mor gyflym a mawr fel ei fod yn gorchuddio'r dŵr heb adael i unrhyw olau gyrraedd y planhigion brodorol islaw, gan atal swyddogaeth naturiol y pwll. Rhywogaethau eraill yw pysgod aur a fydd yn bwyta rhywogaethau brodorol fel penbyliaid. Y ffordd orau i amddiffyn pyllau yw sicrhau nad ydych yn symud unrhyw beth o un pwll i'r llall, oherwydd gall hyn symud wyau a hadau planhigion a rhywogaethau a fydd yn difrodi'r pwll maent yn mynd iddo. Hefyd, ni ddylech ryddhau anifeiliaid fel pysgod aur a chrwbanod dŵr cryw i byllau, nid ydynt yn perthyn yma!

PAM MAE PYLLAU MEWN TRAFFERTH?




Make a rubbing of the Alder Cone here

Gwnewch rwbïad o gôn gwernen yma

We grow on trees and provide winter food for some birds that use their small beaks to break us open to get to our seeds.

Rydym yn tyfu ar goed yn fwyd gaeafol i rai adar sy'n defnyddio eu pigau bach i'n torri ar agor er mwyn cael ein hadau.



ALDER CONE

CÔN GWERNEN


WREN

DRYW



I am a small round bird and am the most common bird found in Britain. I love eating spiders and small insects – delicious! I sing really loudly in the mornings to defend my home patch from other Wrens. See if you can spot me here today.

Aderyn bychan crwm ydw i – yr aderyn mwyaf cyffredin ym Mhrydain. Dwi'n hoffi bwyta pry cof a phryfetach – hyfryd iawn! Dwi'n canu'n uchel iawn yn y bore i warchod fy nhiriogaeth rhag Drywod eraill. Tybed welwch chi fi yma heddiw?



Make a rubbing of the Wren here

Gwnewch rwbïad o'r Dryw yma